COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN REMOTELY VIA SKYPE FOR BUSINESS DYDD MAWRTH, 22 MEDI 2020, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A Hussain | RM James | B Jones | JE Lewis |
| JR McCarthy | G Thomas | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

219. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

220. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNAI

Cyflwynodd Y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Rheoli adroddiad, gyda'r pwrpas i ofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded ar gyfer cerbyd hur.

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod, felly, gofynnwyd i'r Aelodau gan y Swyddog Cyfreithiol os oeddent yn dymuno ystyried y cais yn ei absenoldeb.

Cytunodd yr Aelodau yn unfrydol i'r cais hwn.

Rheolwr y Tîm – Eglurodd Trwyddedu fod cais wedi ei dderbyn oddi wrth Graham Thomas o Ben-y-bont am drwydded ar gyfer BMW 520D â'r rhif cofrestru BN66 BVF fel cerbyd hur ar gyfer 4 person.

Cerbyd ail-law oedd hwn a gofrestrwyd yn wreiddiol gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr & Cherbydau ar y 27 Medi 2016.

Nid oedd y cais yn cydymffurfio â Pholisi Cerbyd Hur cydnabyddedig y Pwyllgor Trwyddedu ar sail y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 4.5 yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd y cerbyd yn cynnig mynediad i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth dyddiedig 26 Awst 2018 oedd yn nodi fod 11,509 milltir ar y cloc, 27,500 milltir ar y cloc ar y 5 Dachwedd 2019 a 32,483 milltir ar y cloc ar y 10 Mawrth 2020. Cyflwynwyd Tystysgrif MOT dyddiedig yr 16 Gorffennaf 2020 oedd yn nodi fod 34,605 milltir ar y cloc.

Archwiliwyd y cerbyd gan Swyddog Gorfodi Trwyddedu ar y 15 Medi 2020 a nododd fod y cerbyd mewn cyflwr da. Mae ffurflen Asesu Cerbyd wedi ei chynnwys yn Atodiad A yr adroddiad. Adeg yr archwiliad, nodwyd fod 24,853 milltir ar y cloc.

Wedi i'r Aelodau ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD: Trafodwyd y cais i gofrestru BN66 BVF fel Cerbyd Hur gan y Pwyllgor.

Nododd yr Aelodau nad oedd yn cydymffurfio â pholisi 2.1 o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor, am y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Awgrymodd yr Aelodau y gallai'r polisi gael ei lacio yn unol â pharagraff 2.2 o'r polisi, yn bennaf ar sail yr ansawdd allanol a mewnol eithriadol a'r safonau diogelwch eithriadol. O ganlyniad, derbyniwyd y cais am drwydded gan yr Is-Bwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:00